Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 06.05.2022

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

## HYFFORDDIANT: Cyswllt Ffermio – Sgiliau a Hyfforddiant

Mae cyrsiau hyfforddiant Cyswllt Ffermio, wedi eu hariannu hyd at 80%, ar gael i helpu datblygu busnesau amaethyddol. Mae'r cyfnod ymgeisio presennol ar agor hyd at 5:00pm, 27 Mai 2022. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/busnes/sgiliau-hyfforddiant/cyrsiau-hyfforddiant

## GWOBRAU: Gwobrau Bwyd Cymru 2022- Enillwyr o Wynedd

Datgelwyd enillwyr Gwobrau Bwyd Cymru 2022 – llongyfarchiadau i Dafarn y Gader Tapas, Dolgellau a Popty Bakery, Llanllechid am ennill eu categorïau. I ddysgu mwy, ewch i:

https://bit.ly/3shbOBY

# DYSGU: Community Leader Cymru – Clore Social Leadership – 6 Mehefin – 5 Awst 2022

Mae rhaglen datblygu arweinyddiaeth am ddim ar gael i arweinwyr yn y gymuned, ac ar lawr gwlad, i gynyddu eu heffaith. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar:

https://cloresocialleadership.org.uk/page/Community_Leader_Cymru_Cymraeg

# LLES: Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl, 9-15 Mai 2022

Mae RCS yn darparu cymorth, hyfforddiant a therapïau i helpu pobl a busnesau ledled Cymru i wella eu llesiant ar gyfer gwaith. Mae manylion am weminarau lles RCS sydd ar y gweill ar gael ar:

https://rcs-wales.co.uk/cy/webinars-cy/

Mae gwybodaeth cyffredinol am RCS ar gael ar:

https://rcs-wales.co.uk/cy/

# AROLWG: Gofal Plant yng Ngwynedd – Arolwg o gyflogwyr

Mae Cyngor Gwynedd yn edrych ar y ddarpariaeth gofal plant sydd ar gael yn y Sir a sut mae hynny yn effeithio ar gyflogwyr a rhieni sy'n gweithio. Mae holiadur wedi ei baratoi i ganfod barn ynghylch gofal plant, a gellir cael mynediad iddo trwy fynd i:

https://forms.gle/TkSwRfk2bqxZChNW8

Y dyddiad cau yw 13 Mai 2022. Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr arolwg, cysylltwch â Uned Gofal Plant Cyngor Gwynedd ar 01286 678824.

## AROLWG: Gwerth Twristiaeth – Arolwg STEAM Gwynedd 2021

Gofynnir i fusnesau llety ac atyniadau gwblhau Arolwg STEAM Gwynedd 2021. Mae'r arolwg yn bwriadu cael darlun cywir a chyflawn o nifer yr ymwelwyr, a chyfrifo gwerth twristiaeth i Wynedd yn 2021. Mae'r canlyniadau yn helpu i benderfynu faint o arian bydd Gwynedd yn ei dderbyn tuag at y gost o wasanaethu mwy o bobl. Cymerwch ran, os gwelwch yn dda, trwy fynd i:

https://bit.ly/ArolwgSTEAMGwynedd2021

## COVID-19: Cadw'r gofyniad i wisgo gorchuddion wyneb mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol

Yn dilyn ei adolygiad diweddaraf, mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd gwisgo gorchuddion wyneb yn parhau i fod yn ofyniad cyfreithiol mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol, ac yn parhau i argymell bod gorchuddion wyneb yn cael eu gwisgo ym mhob man gorlawn neu gaeedig dan do. I ddarllen y datganiad yn llawn, ewch i:

https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-adolygu-rheoliadau-diogelu-iechyd-cyfyngiadau-coronafeirws-rhif-5-cymru-7

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru